




## **Taith Hanes a Llên Gwerin Ardal Llangynwyd**

**Prosiect newydd a chyffrous yw Tro trwy'r Fro sydd yn rhoi'r cyfle i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr aiddarganfod eu hamgylchoedd. Yn yr ail o gyfres o deithiau byr ar draws y sir, bydd Gareth Huw Ifan yn ein tywys o amgylch Llangynwyd lle byddwn yn dysgu mwy am hanes a llên gwerin yr ardal.**




# Eglwys Llangynwyd




Sefydlwyd Eglwys Llangynwyd yn y 6ed ganrif gan Cynwyd Sant. Cafodd Cynwyd Sant ei addysgu yn academi Mynachlog Llanilltud Fawr a sefydlwyd gan Sant Illtud, un o'i addysgwyr.

Tyfodd y pentref o gwmpas yr eglwys fel y daeth mwy o'r Cymry yn Gristnogion gan symud i fyw ger yr eglwys a sefydlu cymuned.

Dechreuir y daith yn Eglwys Llangynwyd lle y cawn ein tywys o gwmpas yr eglwys a chlywed ei hanes gan Miss. Diane Mort.




# Castell Coch Llangynwyd



*Suggested reconstruction of Llangynwyd Castle from the north. Drawn by Howard Griffiths, Aberystwyth. Based on the General Plan and Profile of the Castle.*

Credir yr adeiladwyd Castell Llangynwyd gan ail Iarll Caerloyw sef Robert o Caen (neu Robert Consul fel yr adnabyddir ef) rhwng y blynyddoedd 1107-1147. Pren a daear oedd gwneuthuriad y castell yn gyntaf. Dyma pam y gelwir yr ardal hynafol 'Tir Iarll'. Ystadau Tir Iarll oedd plwyfi Llangynwyd, Betws (gan gynnwys Cwm Garw,) Margam a Chynffig. Ef oedd mab yng nghyfraith Robert Fitzhamon, yr Iarll cyntaf gan iddo briodi unig blentyn Robert a oedd yn ferch. Mae'n debyg iddo ddwyn y tir oddi wrth Cadwallon a fu farw yn ddi-symwth. Roedd Cadwallon yn Uchelwr Cymreig ac yn un o bedwar o feibion Arglwydd Afan Wallia Caradog ap Iestyn ac yn wŷr i Iestyn ap Gwrgan, un o deyrnaswyr Cymru. Roedd Iestyn ap Gwrgan yn hanu o linach Rhodri Mawr ac Arthwys ap Meurug (y Brenin Arthur yn ôl nifer o haneswyr). Concrwyd Iestyn ap Gwrgan gan Robert Fitzhamon Iarll cyntaf Caerloyw, ond rhoddwyd iddo Arglwyddiaeth rhan o Forgannwg rhwng yr afonydd Nedd ac Afan a galwyd Afan Wallia. Adeiladwyd y castell i warchod yr ardal rhag ymosodiadau gan y Cymry o gyfeiriad Afan Wallia.



Gyda chymorth byddin y Cymry o Afan Wallia, ymosodwyd ar y castell ar y 13 o Orffennaf, 1257 gan Llywelyn ap Gruffudd (Ein Llyw Olaf), Tywysog olaf Cymru gyfan. Iarll Caerloyw'r adeg honno oedd Richard de Clare a oedd ar y pryd gyda'i fyddin gref yn gorymdeithio tuag atynt o gyfeiriad Caerdydd. Yn ardal Llanbleddian yr oeddynt pan ddigwyddodd yr ymosodiad. Llosgwyd y castell i'r llawr a lladdwyd 24 o wŷr yr Iarll. Dyma pam y gwelir arfbais nifer o gymdeithasau a sefydliadau Cwm Llynfi yn dangos y castell yn llosgi yn goch.

Ail-adeiladwyd y castell mewn cerrig gan fab Richard sef Gilbert de Clare. Galwyd ef hefyd yn Gilbert Goch oherwydd lliw tanbaid coch ei wallt. Dyma reswm arall o bosib pam y gelwid y castell yn Gastell Coch. Gilbert de Clare oedd hefyd yn gyfrifol am ail-adeiladu tyrrau Castell Caerffili a rhannau o Gastell Coety.

Ym mis Hydref 1294 cafwyd gwrthryfel arall gan y Cymry. Arweiniwyd y gwrthryfel gan Madog ap Llewelyn yn y gogledd a Morgan ap Maredudd, cyn-arglwydd Machen yn y de. Daeth gwŷr Morgannwg i gefnogi ac i ymladd yn y gwrthryfel ac ymosodwyd ar Gastell Llangynwyd unwaith eto a'i losgi'n ulw. Bu raid i Gilbert ffoi o'r castell a'i diriogaeth am byth a bu farw ar y 7fed o Ragfyr 1295. Perchennog newydd y castell oedd ei ail wraig Joan, sef merch Edward Iaf. Bu ymchwiliad i mewn i farwolaeth Gilbert ac mae'r cofnodion yn cronicleo bod y castell wedi ei losgi i'r llawr eto gyda dim ond y waliau allanol yn dal i sefyll. Yn ôl Croniclei Lladin Abaty Wigmore, ganwyd Edward Mortimer, 3ydd Iarll March yno ar 1af Chwefror 1351. Sef 56 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Ar ôl 1295 cofnodir bod Castell Cynffig yn gweinyddu Castell Coch Llangynwyd. Ond mae'n rhaid bod pobl uchel eu statws yn byw yno ar y pryd gan i Edward II yn y flwyddyn 1327 wrth ffoi am ei fywyd, ar ôl cael lloches yn Abaty Margam, anelu am gastell Llangynwyd. Dyma'r un Edward a ddaeth yn Dywysog Cymru Seisnig cyntaf yng nghastell Caernarfon, a'r un Edward sy'n cael ei ganu amdano gan yr Albanwyr yn eu hanthem '*O Flower of Scotland*' - '*And sent him homeward to think again,*' ar ôl iddo gael ei orchfygu gan Robert the Bruce. Gwrthododd pwy bynnag oedd yn byw yn y castell yr adeg honno fynediad i Edward. Fel canlyniad, aeth yn gudd i weithio fel gwas gwartheg ar fferm Gelli Lenor, nepell o bentref Llangynwyd. Ond o fewn diwrnodau daeth si pwy oedd e' yn wir a bu raid iddo ffoi eto rhag milwyr y frenhiniaeth a oedd, erbyn hyn, o dan reolaeth ei wraig Isabella. Dywedir iddo guddio'n uchel ynghanol cyntaf o ddail coeden derwen ar dir Gelli Lenor a ni ddaeth y milwyr o hyd iddo. Nid yw'r dderwen yno rhagor ond mae yna hen garreg yn cofnodi'r fan fel 'Cadair Edward II, 1327'.

Nid oes cofnodion pellach am yr hen gastell heblaw am y ffaith fod Fredrick Evans, awdur y llyfr hanes Tir Iarll a mab yr hanesydd Cadrawd, a'i frodyr wedi tangloddio'r tir yn 1906. Nid oes cofnod iddynt ddod o hyd i unrhyw arteffactau heblaw am garreg gyda'r '*fleur-de-lys*' wedi ei gerfio ynddo (roedd e' dal yno ym 1950 ond wedi diflannu erbyn hyn).

Syrthiodd teitlau Iarll Caerloyw o dan ddeddfwriaeth Arglwyddi Morgannwg i Edward le Despenser yn 1373 a bu iddynt gadw'r tir tan farwolaeth Richard le Despenser ym 1414. Diddymwyd yr hawliau hyn ym 1925. Mae'r teitl Arglwydd Tir Iarll yn dal i fod heddiw er nad oes braint ariannol bellach iddi.

Ysgrifennodd Brinley Richards yn ei lyfr 'The History of the Llynfi Valley' tud. 37 '*A native of Nantyffyllon, Oswald D. Lucas a Cardiff auctioneer, bought the title some years ago to prevent it being sold to a Pittsburg newspaper proprietor; who intended to offer it as a prize in a competition.*'

# Fferm Llwydarth a Chadair Tir Iarll



Yn ôl traddodiad, roedd y Brenin Arthur yn noddwr hael ac yn credu'n gryf ym mhwygrydd y traddodiad barddol yng Nghymru. Yn wir, Sicrhaodd lle i'w feirdd gyda chadair wrth y ford gron. Y ddau 'Myrddin' i eistedd arni oedd Taliesin a Sant Mabon.

Pan fu farw Arthur, symudwyd y gadair i lys Urien Reged yn Aberllwchwr. Arhosodd y gadair yno am dros 200 o flynyddoedd tan i Einion mab Collwyn ei symud i Faes Mawr Morgannwg (Maesteg) ond ni fu yno'n hir gan i Iestyn ap Gwrgan ei symud i Lys Caerleon ar Wysg. Pan fu rhyfel rhwng Iestyn ap Gwrgan a Rhys Tewdwr, symudwyd y gadair i Gastell Caerdydd. Yno daeth o dan nawdd Robert, Iarll Caerloyw a oedd hefyd mae'n debyg yn awyddus i weld y traddodiad barddol yn parhau. Enwyd y gadair yn Gadair Tir Iarll gyda baint ac anrhydedd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain ac i'w gwarchod gan Feirdd Tir Iarll. Symudwyd y Gadair yn ôl i Faes Mawr le bu am gyfnod mae'n debyg yn Eglwys Llangynwyd ac yn Eglwys Betws. Yn y 16eg ganrif, cyfarfu Beirdd Tir Iarll yn neuadd Fferm Llwydarth a adeiladwyd tua 1550/60. Mae'n debyg i'r gadair fod ym meddiant Anthony Powel, Fferm Llwydarth ym 1580 ac awdur 'Brith Cyvarwydd'. Ni wyddom beth ddigwyddodd iddi wedyn.

# Beirdd Tir Iarll

(Y rhai â'r hawl i eistedd yn y gadair mewn llythrennau bras)

TRAHAEARN BRYDYDD MAWR 13300  
HYWEL BWR BACH 1330  
DAVYDD AB GWYLIM 1360  
IEUAN HEN 1370

*Awenyddion*  
Gwylim ab Ieuan Hen  
Ieuan Tew Hen  
Hywel Swrdwal

IEUAN TEW HEN 1420

*Awenyddion*  
Hywel Swrdwal  
Ieuan ab Hywel Swrdwal  
Ieuan Gethin ab I. ab Lleision  
Hywel ab Davydd ab I. ab Rhys

IEUAN GETHIN AB I. AB LLEISION 1430

*Awenyddion*  
Gwilym Tew, neu G. Hendon

GWYLIM TEW 1460

*Awenyddion*  
Iorewerth Vynglwyd  
Ieuan Deulwyn  
Sir Einion ab Owain

IEUAN DEULWYN 1480

*Awenyddion*  
Iorwerth Vynglwyd  
Lewys Morgannwg  
Harri Hir

IORWERTH VYNGLWYD 1600

*Awenyddion*  
Lewys Morgannwg  
Ieuan Du'r Bilwg

LEWYS MORGANNWG 1520

*Awenyddion*  
Meiryg Davydd  
Davydd Benwyn  
Llywelyn Sion o Langnewydd  
Thomas Llywelyn o Regoes

MEIRYG DAVYDD (bu farw 1600)

*Awenydd*  
Watcin Pywel

DAVYDD BENWYN 1660

*Awenyddion*  
Llywelyn Sion  
Sion Mawddwy  
Davydd Llwyd Matthew

LLYWELYN SION (bu farw 1616) 1580

*Awenyddion*  
Watcin Pywel  
Ieuan Thomas  
Meilir Mathew  
Davydd Edward o Vargam  
Edward Davydd o Vargam

WATCIN PYWEL 1620

*Awenyddion*  
Davydd Edward  
Edward Davydd  
Davydd ab Davydd Mathew

EDWARD DAVYDD (bu farw 1690) 1660

*Awenyddion*  
Hywel Lewys  
Charles Bwttwn, Esq.  
Thomas Roberts, Offeiriad  
S. Jones o Vryn Llywarch, Offeiriad  
Evan Sion Meredydd  
Davydd o'r Nant

DAVYDD O'R NANT 1680

*Awenyddion*  
Hopcin y Gweydd  
Thomas Roberts, Offeiriad  
Davydd Hopcin o'r Coetty

SAMUEL JONES, OFFEIRIAD 1700

*Awenyddion*  
Rhys Prys, Ty'n Ton  
William Hain  
Sion Bradford, yn blentyn.


DAVYDD HOPCIN, o'r Coetty 1730

*Awenyddion*  
Davydd Thomas  
Rhys Morgan, Pencraig Nedd  
Davydd Nicolas  
Sion Bradford

SION BRADFORD (bu farw 1780) 1760

*Awenyddion*  
Lewys Hopcin  
William Hopcin  
Edward Evan  
Edward Williams

# Samuel Jones, Brynllwarch 1628-1697



Ganwyd Samuel Jones ger Castell Chirk yn Sir Ddinbych, 1628 yn fab i John Roberts, Corwen ac fel yr arferid y dyddiau hynny, cymerodd enw cyntaf ei dad fel ei gyfenw. Ni wyddom am ei addysg gynnar ond cafodd le ym Mhrifysgol Rhydychen yng ngholeg Yr Holl Seintiau ac fe ddaeth yn Gymrawd yng Ngholeg yr Iesu. Derbyniodd ei Urddau Eglwysig yn Nhaunton, Gwlad yr Haf ac fe'i apwyntiwyd yn Ficer Llangynwyd ym 1657 gan aros yn y swydd am 5 mlynedd. Priododd merch Rees Powell a oedd yn ddyn uchel ei barch a'i ddylanwad yn yr ardal. Symudodd e' gyda'i wraig i Fferm Brynllwarch ym mhlwyf Llangynwyd lle y bu yn byw tan ei farwolaeth.

Gan mai Piwritan oedd e' nid oedd ei gred na'i gydwybod yn gadael iddo blygu i Ddeddf Unffurfiaeth Eglwys Lloegr yn 1662. Fe ymddiswyddodd fel Ficer ac er i Esgob Llandaf cynnig lle arall iddo petai e'n cydymffurfio, ni dderbyniodd ac fe'i diarddelwyd o'r Eglwys.

Medrodd sicrhau Trwydded Pregethu trwy'r ddeddf Datganiad Pardwn a dechreuodd pregethu a chynnal gwasanaethau anghydfurfiol yn Ystafell Hir Yr Hen Dŷ, Llangynwyd, yn ei gartref a llefydd eraill yn y cwm.

Ond roedd angen addysgu dynion ifanc eraill i bregethu yn yr eglwys Anghydfurfiaeth. O ganlyniad i hyn, sefydlodd Academi Brifysgol Anghydfurfiol yn ei gartref ym Mrynllwarch. Adnabyddir yr Academi fel Prifysgol Gyntaf Cymru. Derbyniodd grantiau hael o Fyrdau eglwysi Annibynnol a Phresbyteraid ynghyd â rhoddion hael o foneddigion yr ardal. Ymysg ei fyfyrwyr oedd Samuel Price, cynorthwydd i Dr. Watts yr emynydd, Rice Price Ty'n Ton, tad Dr. Richard Price yr athronydd enwog, James Owen a Philip Pugh

Roedd Samuel Jones hefyd yn fardd ac ar un adeg â'r hawl i eistedd yng Nghadair Tir Iarll.

Bu farw yn ei gartref yng Ngorffennaf 1697, gan adael ei ail wraig a thri o'r 14 o blant a anwyd iddo.

# Cefn Ydfa



Stori serch trist gan Gwilym Felin - hanes Y Ferch o Gefn Ydfa.

Mae stori garu bob amser yn apelio, yn enwedig at y rhyw deg, a does 'na'r un stori garu gwerth ei halen yn rhedeg yn esmwyth: rhaid bydd i rywbeth dorri ar draws cwrs cariad ac os bydd i'r hanes ddiweddu ar nodyn trist - wel, dyna berffeithrwydd!

Un o'r clasuron ymysg y straeon caru ydy'r hanes am fachgen cyffredin yn syrthio mewn cariad ag aeres teulu cefnog a'r fam yn gorfodi'r ferch i briodi mab i deulu cyffelyb, gyda'r canlyniad bod yr eneth yn marw o dorcalon. Dyna, yn ei hanfod, ydy hanes Y Ferch o Gefn Ydfa ond y gwahaniaeth rhwng yr hanes hwn a nifer o straeon eraill tebyg ydy fod hanes carwriaeth Wil Hopcyn ac Ann Thomas, Cefn Ydfa yn wir.

Safai plasty Cefn Ydfa ychydig filltiroedd o bentref Llangynwyd ger Maesteg, ac fel yr awgryma'r enw roedd yn fan delfrydol ar gyfer tyfu ŷd. William Thomas, gwr goludog a arferai bregethu'r efengyl oedd perchen y plas ac ym 1703 priododd â Catherine Price, chwaer y Parch. Rees Price, Llangeiner a oedd yn dad i'r athronydd Dr. Richard Price Ty'n Ton. Oes fer fu i'r briodas gan i William Thomas farw ymhen pedair blynedd a gadael ei eiddo i'w weddw. Golygai hyn mai ei ferch fach Ann oedd aeres Cefn Ydfa. Ganwyd a bedyddiwyd Ann yr un diwrnod ar Fai 8fed, 1704 ac mae'r achlysur wedi ei gofnodi yng nghoflyfr y plwyf. Tyfodd Ann yn ferch hynod brydferth ac ni fu prinder o ŵyr bonheddig a geisiai ei llaw. Er hynny medrodd ei mam, gwraig hynod uchelgeisiol, eu cadw draw gan ei bod eisoes wedi cynllunio dyfodol ei merch gyda'r bwriad iddi briodi ag Anthony Maddocks o Gefnrisga, mab i gyfreithiwr y teulu.

Er bod Catherine Thomas wedi penderfynu pwy oedd priod Ann i fod, daeth bygythiad i'w chynlluniau o gyfeiriad hollol annisgwyl, sef plastrwr ac adeiladwr a oedd hefyd yn fardd, o'r enw Wil Hopcyn, mab Hopcyn Thomas a Diana Harry. Yn ôl y dystiolaeth, bedyddiwyd ef ym mis Tachwedd 1700. Er mai gweithiwr cyffredin oedd Wil hanai o deulu enwog Hopcyniaid y sir, yr oedd ganddynt gysylltiad teuluol ag Iolo Morgannwg.

Un diwrnod, galwyd am Wil i atgyweirio rhai o adeiladau Cefn Ydfa. Dyma'r diwrnod y bu iddo gyfarfod ag Ann am y tro cyntaf ac, fel ym mhob stori garu dda, fe syrthiodd y ddau mewn cariad.

Pan ddeallodd y fam am hyn anfonodd Wil oddi yno gan ei rybuddio i beidio byth ag ymweld â'r lle wedyn, ond roedd y fflam wedi'i chynnau ac nid oedd dim a'i diffoddai. Dechreuodd y ddau gwrdd yn y coed gerllaw'r tŷ, ond unwaith eto daeth meistres Cefn Ydfa i wybod a chlôdd ei merch yn ei hystafell.

Tua'r adeg yma, mae'n debyg, y cyfansoddodd Wil y gân 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' ac er mai i Gwen y canodd does dim dwywaith pwy oedd y ferch oedd ar ei feddwl : gan fod ei gariad tuag at Ann yn gyfrinachol nid oedd wiw iddo ei henwi hi yn y gân. Mewn cân serch arall o'i eiddo, mae yn mentro ei henwi :

Pe cawn Ann lan yn briod,  
Yn hynod fywiog ferch,  
Mi wn nas dengys wybren  
Un seren fwy o serch.  
Mae'i grân fel gloyw berlyn,  
Ar rosyn yn yr haf,  
Ond trowd hi i garu arall  
Er mwyn fy nghadw'n glaf.

Er cael ei chloi yn y tŷ llwyddodd y ferch ieuanc i anfon ambell nodyn at ei chariad. Arferai un o'r morynion gludo'r llythyrau a'u gadael mewn ceubren ar ymyl y ffordd gan ddychwelyd gyda llythyrau oddi wrth Wil Hopcyn. Roedd un o forynion y plas, Ann Llewelyn, â'i llygad ar Wil, ond ni fynnai ef wneud dim â hi. Gwyddai'r forwyn am y llythyrau a gwelodd ei chyfle i atal y garwriaeth. Datgelodd y cyfan i Mrs. Thomas, gyda'r canlyniad i Wil ganu i'r forwyn ddialgar:

"Mae Ann Llewelyn felan,  
Yn fy marnu drach fy nghefan;  
Ond ni all wella'm gwedd a'm gwaith,  
Y neidr fraith anniban."

Ar ôl darganfod cynllun y llythyrau gwnaeth y fam yn siŵr na ddeuai dim rhagor i rwystro'r briodas rhwng ei merch a Maddocks a gwasgodd o ddifrif ar Ann drwy ei chloi yn y seler, a dygwyd oddi arni bob modd i anfon neges at Wil. Rywsut neu'i gilydd, yng nghanol ei hanobaith, medrodd anfon neges at ei chariad wedi ei hysgrifennu yn ei gwaed ei hun gyda nodwydd ar ddeilen sycamorwydden.

Ond y diwedd fu i Ann fodloni i briodi Maddocks a chynhaliwyd y briodas ar Fai 5ed. 1725, dri diwrnod cyn iddi gyrraedd ei un ar hugain oed. Er bod dathlu mawr yn Llangynwyd y diwrnod hwnnw roedd Wil wedi mynd yn ddigon pell. Aethai i weithio i Fryste i geisio anghofio Ann. Ond un noswaith breuddwydiodd fod Anthony Maddocks wedi marw a bod Ann yn rhydd iddo, a chan mor fyw oedd y breuddwyd dychwelodd Wil i'w gynefin heb ymdroi - i ddarganfod bod Maddocks yn holliach ac Ann druan yn wallgof ac ar ei gwely angau.

18 Cefn Ydfa Farm. The lady is Mrs Catherine Maddocks who died 1922 aged 79 years; her husband, Morgan, had died 25 May 1907 aged 82 years



Pan glywodd Mrs. Thomas fod Wil yn y cylch anfonodd amdano gan mai ef oedd yr unig obaith i leddfu salwch ei merch. Yn ôl yr hanes, bu i Ann farw ym mreichiau ei chyn-gariad ac fe'i claddwyd hi ym medd ei thad. Erbyn hyn mae cangell yr eglwys yn cuddio'r fan, a chodwyd y garreg wreiddiol a'i gosod o'r neilltu yn yr eglwys. Gosodwyd plac ar y bedd gyda'r geiriau: Here lies Ann, the wife of Anthony Maddocks, died June 16th 1727 a cherflun o wenith a deilen sycamorwydden arno. Bu farw Wil Hopcyn yntau ar Awst 19eg, 1741, bedair blynedd ar ddeg ar ôl Ann, o ganlyniad i ddamwain.

Bellach mae'r hen blasty yn furddun a dywedir bod ysbryd i'w weld yno o dro i dro. Bu'r hanes yn gyfrwng i symbylu dramâu, nofel a ffilm, ond prin fod yr un ohonynt yn rhagori ar yr hanes gwreiddiol. Mae'r gân Bugeilio'r Gwenith Gwyn yn atgof o'r serch a fu unwaith rhwng Wil Hopcyn ac Ann Thomas, Y Ferch o Gefn Ydfa.

## **Bugeilio'r Gwenith Gwyn**

Mi sydd fachgen ieuanc ffôl.  
Yn byw yn ôl fy ffansi  
Myfi'n bugeilio'r gwenith gwyn,  
Ac arall yn ei feddi.  
Pam na ddeui ar fy ôl,  
Rhyw ddydd ar ôl ei gilydd?  
Gwaith `rwyn dy weld, y feinir fach,  
Yn lanach, lanach beunydd!

Glanach, lanach wyt bob dydd,  
Neu fi â'm ffydd yn ffolach,  
Er mwyn y Gŵr a wnaeth dy wedd,  
Gwna im drugaredd bellach.  
Cwenn dy ben, gwêl acw draw,  
Rho i mi'th law wen dirion;  
Gwaith yn dy fynwes bert ei thro  
Mae allwedd clo fy nghalon!

Tra fo dŵr y môr yn hallt,  
A thra fo `ngwallt yn tyfu  
A thra fo calon yn fy mron  
Mi fydda'n ffyddlon iti:  
Dywed imi'r gwir dan gel  
A rho dan sêl d'atebion,  
P'un ai myfi neu arall, Ann,  
Sydd orau gan dy galon.

**EVANS, THOMAS CHRISTOPHER** ('Cadrawd'; 1846-1918), hynafiaethydd, hanesydd lleol, a chasglydd llên gwerin; g. 28 Rhagfyr 1846, mab Thomas Evans, clerc plwyf Llangynwyd, a Jane ei wraig. Thomas yw unig enw bedydd y mab yntau yn ôl y cofnod. Yr oedd y tad (bu f. 30 Rhagfyr 1877 yn 75 oed) yn Eglwyswr selog a hyddysg iawn yng ngweddïau a threfn a hanes yr Eglwys, ond ei wraig yn Fethodist, ac yntau'n groesawgar i bregethwyr Methodistaidd, a cheir disgrifiadau byw a diddorol ohono ac o'i gartref gan Edward Matthews, Ewenni, droeon yn *Y Cylchgrawn*, yn enwedig Chwefror 1878. O 1841 hyd at 1891 offeiriad plwyf Llangynwyd oedd y Parch. Pendril Llewelyn, gŵr yr oedd ganddo ef a'i wraig lawer o ddiddordeb yn hynafiaethau a diwylliant gwerin Morgannwg. Yr oedd ganddo hefyd lyfrgell dda, a chafodd mab clerc y plwyf bori llawer ynddi. Bu i Mrs. Pendril Llewelyn ran bwysig mewn taenu'r stori am 'Y Ferch o Gefn Ydfa,' a 'Cadrawd' yr un modd, yn enwedig trwy ei *History of the Parish of Llangynwyd*, 1887. Yn 1894 amddiffynnodd ef y stori o flaen Cymmrodorion Casnewydd yn erbyn Dafydd Morgannwg.

Gof oedd 'Cadrawd.' Bu ddwywaith yn ystod ei ieuenctid yn America, ac yn canlyn ei alwedigaeth yn Pittsburgh lle yr oedd yn aros gyda pherthnasau. Ond yn yr 'Hen Blwyf' yr oedd ei fryd, ac yno y treuliodd y rhan helaethaf o'i oes. Priododd Elizabeth Thomas, o ardal Caerfyrddin, a ddaethai i Langynwyd yn ysgolfeistres, ac a ddaliodd y swydd am agos i 30 mlynedd, er iddi gael wyth o blant ei hun, heb golli ond un ohonynt yn ei fabandod. Yr oedd gan 'Cadrawd' ddiddordeb ym mhob agwedd o fywyd ei fro. Casglodd i'w gartref, sef 'Tŷ Cynwyd,' yn ymyl mynwent ei blwyf, bob math o hen ddodrefn, a hen offer ffarm a chreffft, a throsglwyddwyd llawer o'r rhain i Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Yr oedd yn ysgrifennydd toreithiog i gylchgronau a newyddiaduron, megis *Cyfaill yr Aelwyd, Cymru (O.M.E.)*, a phapurau Saesneg Caerdydd. Enillodd gyntaf yn yr eisteddfod genedlaethol yn Aberdâr yn 1885 gyda'i gasgliad helaeth o lôn gwerin Morgannwg. Cyhoeddwyd y gwaith pwysig hwn yng nghyrol cyfansoddiadau'r eisteddfod honno, ac y mae'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, y casgliad llawnaf a brintiwyd erioed o dribannau Morgannwg. Enillodd droeon wedi hyn a'r tro olaf am draethawd ar enwau lleol Cymraeg yn siroedd y gororau. Cafodd fedal aur yr eisteddfod genedlaethol hefyd. Deuddydd cyn ei daro'n wael yn haf 1918 anfonodd i mewn ei feirniadaeth ar draethawd ar hanes dyffryn Nedd (D. Rhys Phillips oedd yn fuddugol, a'r traethawd hwn oedd cnewyllyn ei lyfr ar y pwnc).

Fel y dengys papurau 'Cadrawd,' sydd heddiw yn Llyfrgell Dinas Caerdydd, bu ef yn gohebu â llawer o ysgolheigion ei ddydd, gan gynnwys Syr John Rhys, a bu'n aros gyda Syr Joseph Bradney pan oedd hwnnw'n llafurio ar hanes sir Fynwy. Yn 1910 cyhoeddwyd *Hen Gwndidau, Carolau a Chywyddau Morgannwg*, a olygwyd gan L. J. Hopkin-James a 'Cadrawd.' Yn 1913 cyhoeddwyd ei gyfrol, *Gwaith Iolo Morgannwg*, yn 'Cyfres y Fil.'

Bu ynglŷn ag amryw gymdeithasau Cymraeg, megis yr Orsedd, y Cymmrodorion, a'r Cambrian Archaeological Association. Ef oedd ysgrifennydd cyntaf Cymmrodorion Tir Iarll, a sefydlwyd yn gynnar yn y ganrif hon, ac ef a luniodd ei bathodyn. Adeg diwygiad 1904-5 cyfansoddodd rai emynau. Fe'i claddwyd yn Llangynwyd yn ymyl bedd Samuel Jones, Brynllwarch. Y mae llawer o'i lyfrau yn Llyfrgell Dinas Caerdydd, ac eraill yn Llyfrgell Coleg Abertawe. Blwyddyn wedi ei farw, rhoes y Llywodraeth deyrnged i'w wasanaeth trwy roi pensiwn gwladol o £50 i'w weddw, a fu fyw i'w dderbyn am 10 mlynedd.

**Hoffai Menter Bro Ogwr ddiolch yn fawr iawn i Gareth Huw Ifan am wirfoddoli'u amser ac am drefnu'r daith hon.**

**Wedi mwynhau'r daith?  
Rhowch wybod i eraill a chofiwch edrych allan am deithiau'r dyfodol!  
Ewch i wefan Menter Bro Ogwr am y newyddion diweddaraf!  
[www.menterbroogwr.org](http://www.menterbroogwr.org)**

**Oes gennych chi syniad am daith  
Tro trwy'r Fro?**

**Hoffech chi arwain taith yn eich ardal chi?**

**Os oes diddordeb gyda chi drefnu taith ar y cyd gyda Menter Bro Ogwr yn 2010, cy-sylltwch â Marged i drafod ymhellach!**

**01656 732 200**

**[marged@menterbroogwr.org](mailto:marged@menterbroogwr.org)**



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Elusen gofrestrdig rhif: 1112683 Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant rhif: 5522274

**Menter Bro Ogwr would like to thank Gareth  
Huw Ifan for volunteering his time and  
organising this tour**

**Enjoyed this tour?  
Spread the word and remember to  
look out for future tours! Go to Menter  
Bro Ogwr's website for all the latest  
news and events!  
[www.menterbroogwr.org](http://www.menterbroogwr.org)**

**Have you got an idea for a  
Tro trwy'r Fro tour?**

**Would you like to lead a tour in your area?**

**If you are interested in organising a tour  
with Menter Bro Ogwr in 2010, contact  
Marged to discuss your ideas!**

**01656 732 200  
[marged@menterbroogwr.org](mailto:marged@menterbroogwr.org)**



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD





21 Gelli Lenor Farm, reproduced from 'Glamorganshire' by J H Wade M.A., published 1914

**EVANS, THOMAS CHRISTOPHER** (*Cadrawd* ; 1846-1918), antiquary and folk-lorist; b. 28 Dec. 1846 (chr. 'Thomas,' simply), son of Thomas Evans, parish clerk of Llan-gynwyd, Glam., and his wife Jane. The father (d. 30 Dec. 1877, aged seventy-five) was an Anglican, but the mother a Methodist; the home welcomed Methodist preachers — see the descriptions of it by [Edward Matthews \(q.v.\)](#) of Ewenny, in *Y Cylchgrawn*, particularly in the number for Feb. 1878. [Mrs. Mary Pendrill Llewelyn \(q.v.\)](#), the vicar's wife, encouraged the boy to browse in the vicarage library, and her championship of the traditional story of the 'Maid of Cefn Ydfa' was implicitly accepted by her protégé in all his writings; even in 1894 he defended the tradition against the criticisms of [Dafydd Morgannwg \(D. W. Jones, q.v.\)](#). He became a blacksmith; though in his early years he twice went to Pittsburgh, he returned to Llangynwyd to spend the rest of his life; he m. Elizabeth Thomas (of Carmarthen); they had several children. They lived at 'Tŷ Cynwyd' near the parish church, and Cadrawd filled the house with old furniture, old farm implements, and rural craftsmen's gear — much of his collection is now in the National Museum of Wales, while many of his books are in the Cardiff City Library, and others in the library of Swansea University College. He d. [24] July, 1918 and was buried in Llangynwyd churchyard, alongside the grave of [Samuel Jones \(1628-1697\) \(q.v.\)](#) of Brynllwarch. His widow received a small Civil List pension.

Cadrawd was a prolific writer on local history; much of his work appeared in *Cyfaill yr Aelwyd, Cymru (O.M.E.)*, and the Cardiff newspapers. He published in 1887 his well-known *History of the Parish of Llangynwyd*. His prize essay at the 1885 (Aberdare) national eisteddfod was printed in the transactions of that eisteddfod; it is an extensive collection of Glamorgan folk-lore, and includes the fullest printed collection of Glamorgan tribran verses. Other eisteddfodic prizes, and a gold medal, were awarded him. In 1910 he edited (with [L. J. Hopkin James, q.v.](#)) *Hen Gwndidau*, a collection of old religious poetry; and in 1913 a volume of selections from [Iolo Morganwg](#) (in [O. M. Edwards](#)'s 'Cyfres y Fil'). He kept up a correspondence (now in the Cardiff City Library) with a wide circle of scholars, e.g. [Sir John Rhys \(q.v.\)](#) and [Sir Joseph Bradney \(q.v.\)](#), with whom he stayed for some time during the preparation of the *History of Monmouthshire*.

## Bugeilio'r Gwenith Gwyn ([English](#): *Watching the White Wheat*)

An 18th century traditional [Welsh](#) love song.

It describes the tragic love affair between Wil Hopcyn and [Ann Thomas](#) (The Maid of Cefn Ydfa) from the village of [Llangynwyd](#) in [Glamorganshire](#). Ann belonged to a wealthy farming family but Wil was only a farm labourer. Ann's mother rejected Wil and forced Ann into a marriage with Anthony Maddocks, the son of a local [squire](#).

A few days before the marriage took place Wil left Llangynwyd. Months later Wil had a dream in which Ann's new husband had died, so he returned home. However, when he arrived he discovered that in fact it was Ann who was dying, from a [broken heart](#). Ann died in his arms that day.

Maddocks inherited the Thomas' estate and soon re-married.

Wil died in 1741, never having married. Both he and Ann are buried at Llangynwyd.

Mi sydd fachgen ieuanc ffol. Yn byw yn ol fy ffansi Myfi'n bugeilio'r gwenith gwyn, Ac arall yn ei feddi. Pam na ddeui ar fy ôl, Rhyw ddydd ar ôl ei gilydd? Gwaith `rwyn dy weld, y feinir fach, Yn lanach, lanach beunydd!

Glanach, lanach wyt bob dydd, Neu fi â'm ffydd yn ffolach, Er mwyn y Gŵr a wnaeth dy wedd, Gwna im drugaredd bellach. Cwnn dy ben, gwêl acw draw, Rho i mi'th law wen dirion; Gwaith yn dy fynwes bert ei thro Mae allwedd clo fy nghalon!

Tra fo dŵr y mor yn hallt, A thra fo `ngwallt yn tyfu A thra fo calon yn fy mron Mi fydda'n ffyddlon iti: Dywed imi'r gwir dan gel A rho dan sel d'atebion, P'un ai myfi neu arall, Ann, Sydd orau gan dy galon.

### *Translation:*

*I am a young and foolish lad Who lives as I please I shepherd the white wheat  
And another reaps it. Why not follow me Some day after another? Because I see  
you little lass, Purer and purer each day!*

*Purer and purer are you every day, Or I with my faith more foolish, For the One  
that created your countenance, Be compassionate towards me now. Lift your  
head, look over there, Give me your dear white hand; Because in your lovely  
breast Is the key to the lock of my heart!*

*Whilst the water of the sea is salty, And whilst my hair is growing And whilst  
there is a heart in my bosom I will be faithful to you: Tell me the truth in secret  
And give under seal your answers, Whether it is I or another, Ann, Which is pre-  
ferred by your heart.*

# Cefn Ydfa



## The Maid of Cefn Ydfa: a synopsis

Ann Maddocks (born Thomas, 1704-1727) was a Welsh maid who according to tradition was forced to marry against her wishes and died pining for her true love. She is also known by the poetic name, 'The Maid of Cefn Ydfa'.


Ann Thomas was born in 1704 to William Thomas of Cefn Ydfa, Llangynwyd and his wife Catherine Price of Tynton, Llangeinor, who was sister to Rees Price, the father of philosopher Richard Price. Thomas and Price married in 1703, but her father died in 1706, and tradition tells that he had placed Ann in the wardship of Anthony Maddocks, a lawyer from Cwmrisga. Maddocks decided that Ann would marry his son, also called Anthony, and records show that the two were married on 4 May 1725.

The legend states that Ann had fallen in love not with the wealthy Maddocks, but with the poet and thatcher, Wil Hopcyn (William Hopkin) and when discovered were forbidden to see each other. The couple continued their relationship by sending love letters to each other in secret, but when these communications were uncovered, Ann's mother took away her writing materials.

Unable to be together, Hopcyn left the area, and Ann married Anthony Maddocks. Ann is said to have pined so desperately for her lover that she fell seriously ill. On her death bed she asked to see Hopcyn, and when he arrived she died in his arms.

Records show that Ann Maddocks died in 1727 and was buried on 6 June.

## Samuel Jones, Brynllwarch 1628-1697



Samuel Jones was born in 1628 near Chirk Castle in Denbighshire. The son of John Roberts, Corwen and as was tradition in those days, he took his father's first name as his surname. We know nothing of his early education, but he was accepted at All Saints College, Oxford University and became a fellow of Jesus College. He received his Holy Orders at Taunton, Somerset and was appointed Vicar of Llangynwyd in 1657, staying in the job for 5 years. He married the daughter of Rees Powell and was a highly respected and influential man in the area. He moved with his wife to Brynllwarch Farm in the parish of Llangynwyd, where they lived until his death.

As a Puritan, neither his belief nor his conscience would allow him to conform to the English Church's Act of Uniformity in 1662. He resigned as Vicar and although the Bishop of Llandaff offered him another place if he was to conform, he refused and expelled from the Church.

He succeeded in securing a Preaching Licence through the Declaratory Act of Pardon and began preaching and holding nonconformist services in the Long Room of the Old House, Llangynwyd, as well as at his home and other locations in the valley.

However, other young men needed to be educated to preach in the Nonconformist church. As a result, Samuel Jones established a Nonconformist University Academy at his home in Brynllwarch. The Academy is recognised as Wales' first University. He received generous grants from the Boards of the Congregationalist and Presbyterian churches, as well as generous gifts from local noblemen. Among his students was Samuel Price, Assistant to Dr Watts the hymnist, Rice Price Ty'n Ton, father of Dr. Richard Price the famous philosopher, James Owen and Phillip Pugh.

Samuel Jones was also a bard, and at one time had the right to sit in the Tir Iarll Chair.

He died at his home in July 1697, leaving his second wife and three of his 14 children.

# The Bards of Tir Iarll

(Those with the right to sit in chair in capital letters)

TRAHAEARN BRYDYDD MAWR 13300

HYWEL BWR BACH 1330  
DAVYDD AB GWYLIM 1360  
IEUAN HEN 1370

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Gwylim ab Ieuan Hen  
Ieuan Tew Hen  
Hywel Swrdwal

IEUAN TEW HEN 1420

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Hywel Swrdwal  
Ieuan ab Hywel Swrdwal  
Ieuan Gethin ab I. ab Lleision  
Hywel ab Davydd ab I. ab Rhys

IEUAN GETHIN AB I. AB LLEISION 1430

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Gwilym Tew, neu G. Hendon

GWYLIM TEW 1460

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Iorewerth Vynglwyd  
Ieuan Deulwyn  
Sir Einion ab Owain

IEUAN DEULWYN 1480

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Iorwerth Vynglwyd  
Lewys Morgannwg  
Harri Hir

IORWERTH VYNGLWYD 1600

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Lewys Morgannwg  
Ieuan Du'r Bilwg

LEWYS MORGANNWG 1520

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Meiryg Davydd  
Davydd Benwyn  
Llywelyn Sion of Langnewydd  
Thomas Llywelyn of Regoes

MEIRYG DAVYDD (bu farw 1600)

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Watcin Pywel

DAVYDD BENWYN 1660

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Llywelyn Sion  
Sion Mawddwy  
Davydd Llwyd Matthew

LLYWELYN SION (bu farw 1616) 1580

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Watcin Pywel  
Ieuan Thomas  
Meilir Mathew  
Davydd Edward o Vargam  
Edward Davydd o Vargam

WATCIN PYWEL 1620

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Davydd Edward  
Edward Davydd  
Davydd ab Davydd Mathew

EDWARD DAVYDD (bu farw 1690) 1660

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Hywel Lewys  
Charles Bwttwn, Esq.  
Thomas Roberts, Clergyman  
S. Jones o Vryn Llywarch, Clergyman  
Evan Sion Meredydd  
Davydd of Nant

DAVYDD O'R NANT 1680

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Hopcin y Gweydd  
Thomas Roberts, Clergyman  
Davydd Hopcin of Coetty

SAMUEL JONES, OFFEIRIAD 1700

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Rhys Prys, Ty'n Ton  
William Hain  
Sion Bradford, as a child.

DAVYDD HOPCIN, o'r Coetty 1730

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Davydd Thomas  
Rhys Morgan, Pencraig Nedd  
Davydd Nicolas  
Sion Bradford

SION BRADFORD (died 1780) 1760

*Awenyddion (Bardic Pupils)*

Lewys Hopcin  
William Hopcin  
Edward Evan  
Edward Williams

# Llwydarth Farm and the Chair of Tir Iarll



According to tradition, King Arthur was a generous patron and strongly believed in the importance of the bardic tradition in Wales. It is said that his bards had a chair at the round table. The two 'Merlins' to sit there were Taliesin and Saint Mabon.

When Arthur died, the chair was moved to Urien Reged's court in Aberllwchwr. It remained there for over 200 years until Einion son of Collwyn moved it to Maes Mawr Morgannwg (Maesteg), before it was moved again by Iestyn ap Gwrgan to the court at Caerleon on Usk. During a war between Iestyn ap Gwrgan and Rhys Tewdwr, the chair was moved to Cardiff Castle. Here it came under the patronage of Robert, Earl of Gloucester, who was also keen to see the bardic tradition continue. The Chair, by honour and privilege of the Gorsedd of the Bards of the Isle of Britain, was named the Chair of Tir Iarll and was to be protected by the bards of Tir Iarll. The chair was moved back to Maes Mawr, where it was kept for a period of time at the church in Llangynwyd and also Bettws Church. In the 16<sup>th</sup> century, the Tir Iarll Bards would meet at the hall of Llwydarth Farm, which was built about 1550/60. Apparently, Anthony Powel, Llwydarth Farm and author of 'Brith Cyvarwydd', was in possession of the chair in 1580. Its whereabouts are not known after this.


In October 1294, the Welsh revolted again. They were lead by Madog ap Llewelyn in the north and Morgan ap Maredudd, the former lord of Machen, in the south. The Welsh of Glamorgan came to support and fight in the rebellion, attacking Llangynwyd Castle and burning it to the ground once again. Earl Gilbert had to flee from his castle and territories forever. He died on the 7<sup>th</sup> of December 1295. The new owner of the castle was now his second wife Joan, the daughter of Edward I. The investigation following Earl Gilbert's death in 1295 records that Llangynwyd Castle had been burnt to the ground during the uprising, leaving only the external walls standing. According to the Latin chronicle of Wigmore Abbey, Edward Mortimer, the 3<sup>rd</sup> Earl of March, was born there on the 1<sup>st</sup> of February 1351, which was 56 years later.

After 1295 it would appear that Llangynwyd Castle was administered by Kenfig Castle. However, people of a high status must have lived there at the time, because in 1327, Edward II left the sanctuary of Margam Abbey and made his way to Llangynwyd Castle. This is the same Edward that later became the first English Prince of Wales at Caernarfon, and the same Edward that the Scots sing about in their anthem '*O Flower of Scotland*' – '*And sent him homeward to think again*' after he was defeated by Robert the Bruce. Whoever owned the castle at the time refused entry to Edward, and as a result he sought refuge at Gelli Lenor Farm about one mile from the castle, where he went to work as a cowherd. Within days his presence at the farm was suspected and he had to flee from the soldiers of the realm, who were by now under the rule of his wife Isabella. It is said that he concealed himself in the leafy branches of a nearby oak tree and that the soldiers could not find him. The tree in which Edward is said to have hidden no longer exists, but the location is marked by an old stone bearing the inscription, 'Cadair Edward II, 1327.' (Edward's Chair).

There are no further records of the old castle apart from the fact that Frederick Evans, author of the history of Tir Iarll and son of the historian Cadrawd, together with his brothers excavated the land in 1906. There is no record of them discovering any artefacts, apart from a stone with the fleur-de-lys carved into it (it was still there until 1950 but has since disappeared).

The titles of the Earl of Gloucester came under the legislation of the Lords of Glamorgan to Edward le Despenser in 1373, and the family kept the land till the death of Richard le Despenser in 1414. The manorial rights were abolished in 1925. Although the right to be called the lord of the manor of Tir Iarll still exists, there are no monetary privileges attached to the title.


Brinley Richards in the '*History of the Llynfi Valley*', p.37 states: '*A native of Nantyffyllon, Oswald D. Lucas, a Cardiff auctioneer, bought the title some years ago to prevent it being sold to a Pittsburg newspaper proprietor; who intended to offer it as a prize in a competition.*'



On the 13<sup>th</sup> of July, 1257 and with the aid of the Welsh army from Afan Wallia, the castle was attacked by Llywelyn ap Gruffudd (Ein Llyw Olaf), the last Prince of Wales. The Earl of Gloucester at the time was Richard de Clare, who with a very strong army was marching towards them from the direction of Cardiff. They were in the area of Llanbleddian when the attack took place. The castle was burned to the ground and 24 of the Earls men were killed. This is why many Llynfi Valley societies and organisations show the castle burning red on their coat of arms.

The castle was rebuilt in stone by Richard's son, Gilbert de Clare. He was also called Gilbert Goch (Red Gilbert) because of his fiery red hair. This is another possible reason for the castle being named Castell Coch. Gilbert de Clare was also responsible for the re-building of the towers of Caerphilly Castle and parts of Coity Castle.

## Castell Coch Llangynwyd (Red Castle)



Suggested reconstruction of Llangynwyd Castle from the north. Drawn by Rowland Griffiths, Aberystwyth. Based on the General Plan and Profile of the Castle.

It is believed that the castle was first built between 1107 and 1147 by the second Earl of Gloucester, Robert of Caen (better known as Robert Consul). Originally it was constructed from earth and timber. This ancient area became known as 'Tir Iarll' (*Earl's Land*). The parishes of Llangynwyd, Bettws (including the Garw Valley), Margam and Kenfig were part of the 'Tir Iarll' estates.

Robert of Caen was the son-in-law of Robert Fitzhamon, the first Earl of Gloucester, having married his daughter and sole heiress. It is said that he stole the land from Cadwallon, following his sudden death. Cadwallon was a Welsh nobleman, one of the four sons of Caradoc ap Iestyn and grandson of the Welsh ruler Iestyn ap Gwrgan. Iestyn ap Gwrgan was a descendant of Rhodri Mawr and Athrwys ap Meurug (King Arthur according to many historians). He was conquered by Robert Fitzhamon, 1<sup>st</sup> Earl of Gloucester, but was given lordship of a part of Glamorgan between the river Nedd and Afan called Afan Wallia. The castle was built to protect the area from attacks by the Welsh from Afan Wallia.


# Llangynwyd Church




Llangynwyd Church was established in the 6<sup>th</sup> Century by Saint Cynwyd. Saint Cynwyd was educated at the academy of the monastery of Llantwit Major which was established by one of his teachers, Saint Illtud.

As more of the Welsh were converted to Christianity, the village around the church grew and a community was established.

Our journey begins in Llangynwyd Church where we will learn more about its history from Miss Diane Mort.







## **A Tour through the History and Folklore of the Llangynwyd Area**

**Tro trwy'r Fro is a new and exciting project which offers you the opportunity to rediscover your surroundings. In the second of a series of short trips across the county, Gareth Huw Ifan will guide us around Llangynwyd, where we will learn about the areas history and folklore.**